**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - P/VG/0496/17

Dr Dai Lloyd
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Ebrill 2017

Annwyl Dai,

Yn dilyn fy llythyr at bob Aelod Cynulliad ar 2 Mawrth yn rhoi gwybod iddynt am benderfyniad Prif Ystadegydd Cymru y dylid cyhoeddi ystadegau ar weithgareddau misol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar yr un diwrnod, gallaf gadarnhau yn awr y bydd y set ddata gyntaf yn cael ei chyhoeddi ar 20 Ebrill am 9:30am. Wedi hynny, bydd pob set ddata yn cael ei chyhoeddi ar y dydd Iau olaf ond un yn y mis gan amlaf.

Mae blog Prif Ystadegydd Cymru 'Cydlynu ystadegau misol y GIG' yn awgrymu y bydd newid i gyhoeddi'r datganiadau misol ar weithgareddau'r GIG ar yr un diwrnod yn cynnig darlun mwy cyflawn ac integredig o weithgarwch a pherfformiad, ac felly golwg gliriach ar y GIG yng Nghymru.

Byddwn yn falch o gael adborth gan y Pwyllgor wedi i'r ystadegau gael eu cyhoeddi. Byddant i'w cael yn: http://llyw.cymru/statistics-and-research/nhs-activity-performance-summary/?skip=1&lang=cy

Os bydd yr Aelodau yn teimlo y byddai o fudd cael mwy o wybodaeth gan ystadegwyr ynghylch y mater hwn, byddem yn falch o hwyluso hyn. Os hoffech drefnu hyn, cysylltwch â John Morris, Pennaeth Ystadegau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Boblogaeth, yn: morris.john@wales.gsi.gov.uk / 0300 0251401.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.